EARTH FALL

at swim two boys

Pecyn Astudio

Croeso i Becyn Astudio Earthfall

Mae'r pecyn astudio hwn wedi ei gynllunio ar gyfer myfyrwyr ac athrawon fel ei gilydd, er mwyn rhoi cipolwg ar y themâu a'r dyfeisiau coreograffig a ddefnyddiwyd i greu ***At Swim Two Boys,*** perfformiad sy'n archwilio'r berthynas ddatblygol rhwng dau ddyn ifanc yn ystod Gwrthryfel y Pasg yn Iwerddon ym 1916.

Lluniau: Hugo Glendinning 2005/06

Cynnwys

Tudalen 3	**Cyflwyniad**
	Earthfall
	At Swim Two Boys
Tudalen 4	**Perfformwyr cyfredol**
Tudalen 5-8	**Dyfeisiau coreograffig**
	Pocedi
	Creigiau
	Ochr yn Ochr
	Pal o' My Heart
Tudalen 9	**Testun Perfformio**
Tudalen 10-12	**Tasgau Ymchwil**
Tudalen 13	**Manylion Cyswllt**

CYFLWYNIAD

Ffurfiwyd **Earthfall** ym 1989 gan Jessica Cohen a Jim Ennis gyda pholisi o greu coreograffi radical wedi'i uno â cherddoriaeth fyw a delweddau grymus. Buan yr enillodd y cwmni enw da fel enghraifft loyw o theatr ddawns arloesol. Mae gwaith Earthfall, sy'n seiliedig ar bynciau penodol, yn ymwneud â chwilio am onestrwydd personol, angerdd ac economi mewn perfformiad corfforol er mwyn cynhyrchu gwaith safonol a dwys. Mae Earthfall wedi perfformio ledled y byd mewn nifer o wyliau mawrion ac wedi ymddangos ar ddarllediadau teledu a radio niferus. Derbyniodd y cwmni nifer o wobrau am berfformiadau byw a gwaith ffilm, gan gynnwys Gwobr BAFTA Cymru am y Ffilm Fer Orau ('Too Old to Dream'), enwebiad am Wobr BAFTA Cymru am y Ffilm Fer Orau ('Gravitas-Postcards') yn 2010 a Gwobr Theatr yng Nghymru am y Cynhyrchiad Dawns/Theatr Gorfforol Orau, ***At Swim Two Boys.***

Mae ***At Swim Two Boys*** yn addasiad o nofel arobryn **Jamie O'Neill** sy'n dwyn yr un enw. Wedi'i osod yn Iwerddon ym 1916, mae'r gwaith yn cyferbynnu carwriaeth ddatblygol rhwng dau ddyn ifanc â helynt gwleidyddol yn Iwerddon a'r lladdfeydd ar Ffrynt y Gorllewin - cyferbyniad o freuddwydion am ryddhad cenedlaethol a phersonol. Caiff y cynhyrchiad ei lwyfannu mewn llyn o flaen rhaeadr, sy'n graddol lenwi'r llwyfan â dŵr ac mae'r dawnsio byw yn cyfuno â delweddau sy'n adlewyrchu ac yn cyfleu pŵer emosiynol anhygoel. Mae ***At Swim Two Boys*** yn cynnwys corfforoldeb eithafol, cerddoriaeth fyw, deunydd ffilm archif a delweddau byw a thestun tros-lais gan yr awdur.

Cafodd ***At Swim Two Boys*** ei greu a'i berfformio am y tro cyntaf yn 2004. Hwn oedd yr ail dro i'r cwmni gydweithio â Jamie O'Neill, yn dilyn comisiwn gan Flwyddyn Lenyddiaeth y DG i ysgrifennu tri monolog a thestunau eraill ar gyfer cynhyrchiad Earthfall, ***forever and ever.***

Wrth fynd ati i greu ***At Swim Two Boys*** nid atgynhyrchu nofel 600-tudalen ar gyfer perfformiad byw oedd nod Earthfall; yn hytrach, y bwriad oedd haniaethu un llinyn unigol o'r naratif cymhleth gan ganolbwyntio ar y berthynas rhwng y ddau fachgen yn y nofel. O fewn y cysyniad hwn, cafodd rhannau o'r llyfr eu distyllu a'u gwau at ei gilydd a'i hailffurfio yn ôl dehongliad y cwmni. Yn y bôn, mae'r cynhyrchiad yn stori garu atgofus sy'n dod i ddiweddglo trasig ac ingol.

"Trais, tynerwch, angerdd a hiwmor
mewn perfformiad ardderchog a bywiog"
The Times

PERFFORMWYR PRESENNOL

Murilo Leite

Cafodd Murilo ei eni ym Mrasil ac fe'i cyflwynwyd i fyd dawns gan Marcia Lot. Symudodd i Loegr ym 1996 ac yn 16 oed roedd yn un o gyd-sylfaenwyr Cwmni Dawns Re*Flex dan arweiniad RJC Dance. Ar y cyd â'i hyfforddiant dawns yng Ngholeg Dinas Bryste (Prifysgol Plymouth), perfformiodd gyda'r Movement Collective mewn taith ranbarthol gyda Chwmni Dawns Neshima ac fe gyflwynodd ddosbarthiadau addysg cymunedol ym Mrasil. Aeth Murilo yn ei flaen i gwblhau ei hyfforddiant ym Mhrifysgol Middlesex a graddiodd gydag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf yn 2011. Perfformiodd yng Ngŵyl Harbourside Bryste dair blynedd o'r bron mewn comisiynau ecsgliwsif ar ran Adam Hougland (Cwmni Bale Louisville, Bale Cincinnati), ar ran Julia Thorneycroft ac mewn cynyrchiadau gan y cwmnïau a enwir uchod.

Daniel Connor

Cafodd Daniel ei fagu yn Ellesmere Port, Swydd Gaer. Dechreuodd ddawnsio yn 14 oed ac ymunodd â Chwmni Dawns Ieuenctid Swydd Gaer gan ymddangos ym mherfformiadau Youth Dance England yn Hippodrome Birmingham a The Lowry, Salford Quays. Yn 18 oed, aeth Danie i Brifysgol Middlesex cyn mynd ymlaen i Ysgol Ddawns Gyfoes y Gogledd i gwblhau ei hyfforddiant proffesiynol. Graddiodd Daniel o'r NSCD yn 2010 a dyfarnwyd gwobr berfformio flynyddol yr NSCD iddo. Wedi hynny, daeth yn aelod o Verve11, cwmni perfformio ôl-raddedig yr NSCD, a graddiodd gydag anrhydedd ym mis Gorffennaf 2011.

Frank Naughton

Mae Frank wedi cyfansoddi a pherfformio gydag Earthfall ar eu pum cynhyrchiad diwethaf. Mae'n chwarae nifer o offerynnau - ei brif rai yw'r gitâr, llais ac allweddellau. Mae Frank yn un o sylfaenwyr a pherfformwyr y grŵp Rocketgoldstar ac mae e wedi perfformio hefyd gyda Nemesis a Thighpaulsandra ac wedi cymryd rhan mewn dau 'Peel session'. Mae ei gredydau eraill yn cynnwys chwarae ar y record 'double A-side' hiraf yn y byd (12 awr) a pherfformio gig tawel cyntaf y byd.

Sion Orgon

Mae Siôn wedi cyfansoddi a pherfformio gydag Earthfall ar eu tri chynhyrchiad diwethaf. Mae e'n un o sylfaenwyr a pherfformwyr y grŵp Rocketgoldstar. Mae Siôn yn arbenigo mewn drymiau, llais, gitâr ac allweddellau. Mae'n gwneud gwaith sesiwn fel drymiwr i chwaraewr allweddellau y Cardiacs, William D Drake, ac i'r artist Cymraeg, Geraint Jarman. Gweithiodd ar albwm stiwdio gyda Tim Lewis (aka Thighpaulsandra o Spiritualised, Coil a Julian Cope) ac Alessandro Cortini, sy'n chwarae gyda Muse. Pan nad yw'n chwarae, mae'n gweithio yn y stiwdio ac yn gwneud gwaith 'mastro' i gwmnïau amrywiol. Mae e hefyd wedi cwblhau 3 albwm unigol.

Tîm Artistig - Cyfarwyddwyr Artistig: Jessica Cohen a Jim Ennis | Cyfansoddwyr y Gerddoriaeth Wreiddiol: Roger Mills a Frank Naughton gyda chyfansoddiad ychwanegol ar gyfer fersiwn 2011 gan Siôn Orgon | Dylunio a goleuo gan: Gerald Tyler | Sain gan: Felix Otaola | Ffilm gan: Jim Ennis a Steve Vernecombe | Cyfarwyddwr technegol: Gerald Tyler | Cymysgu delweddau: Steve Vernecombe | Ffotograffiaeth: Hugo Glendinning

Pocedi

Mae'r adran hon yn tynnu ar ddisgrifiadau coreograffig yn y nofel ei hun o'r modd y dechreuodd y cyfeillgarwch rhwng y ddau fachgen. Mae'n cyfleu eu hatyniad at ei gilydd wrth iddyn nhw sylweddoli bod eu teimladau yn llawer dyfnach na chyfeillgarwch arferol. Mae'n mynegi eu hofn o'u hemosiynau eu hunain a'r ofn dwfn oddi mewn iddynt sy'n deillio o ddiwylliant y cyfnod. Yma, mae'r cyd-destun yn bwysig, h.y. roedd bod yn hoyw yn cael ei ystyried fel cyflwr pechadurus o safbwynt yr Athrawiaeth Babyddol ond roedd hefyd yn drosedd ddifrifol y gellid ei chosbi â chyfnod yn y carchar. (Gweler achos llys Oscar Wilde a'i waith *The Ballad of Reading Jail).*

Mae dau ddawnsiwr â'u dwylo yn eu pocedi yn cerdded ochr yn ochr. Maent yn cylchu ei gilydd, yn igam-ogamu ac yn osgoi edrych yn llygaid ei gilydd. Mae yna deimlad cryf o densiwn a chanolbwyntio agos rhwng eu cyrff. Maent yn cyffwrdd ar ddamwain. Maent yn stopio. Maent yn edrych ar ei gilydd. Maent yn cerdded i ffwrdd.

Trwy gyfrwng gwaith byrfyfyr helaeth, llwyddodd y tîm artistig i gyfleu'r rhan hon o'r naratif trwy ddilyn y fformiwla ganlynol ar gyfer coreograffi minimalaidd:

- Cadw'r dwylo yn y pocedi ar hyd yr amser
- Dawnswyr yn symud o amgylch ei gilydd mewn modd sensitif a gofalus mewn un man penodol
- Cylchu a gwau o gwmpas ei gilydd, yn agos iawn, ond gan sicrhau nad ydynt yn cyffwrdd
- Datblygu'r symud mewn tempo gan newid cyfeiriad yn aml
- Cyffwrdd ar ddamwain
- Teimlo'r cyffyrddiadau damweiniol hyn fel sioc drydanol ysgafn
- Stopio'n stond a dal llygaid ei gilydd
- Cerdded o leiaf bum cam oddi wrth ei gilydd
- Dal y foment hon yna dal llygaid ei gilydd
- Camu tuag at ei gilydd i gyfarfod eto mewn man arall

Cafodd y gyfres hon ei hailadrodd bum gwaith gydag amrywiadau. Ychwanegwyd newidiadau i'r deinameg – arafu neu oedi hyd yn oed am ennyd er mwyn cynyddu tensiwn, neu gyflymu symudiad penodol yn y gyfres. Cyflwynwyd ystod o lefelau wrth i'r naill ddawnsiwr droi o gwmpas y llall. Gallai'r dawnswyr benderfynu oedi'n hirach dros y cyffyrddiad damweiniol neu ychwanegu pwysau at y weithred, er enghraifft trwy orffwys y pen ar ysgwydd y dawnsiwr arall.

Lluniau: Hugo Glendinning 2005/06

Lluniau: Hugo Glendinning 2005/06

Creigiau

Mae'r adran goreograffig hon yn tynnu ar ddisgrifiadau yn y nofel o'r bechgyn yn mynd lawr at y môr i nofio. Mae'r mŵd yn dawel ac yn chwareus.

Er mwyn creu'r coreograffi, fe ddychmygom ni gyfres o greigiau yn codi allan o'r dyfroedd bas. Mae'r bechgyn yn neidio mor bell ag y gallan nhw o un graig i'r llall. Maent yn dilyn ei gilydd fel bod y tirwedd creigiog anweledig yn creu rhyw fath o batrwm rhesymegol. Does dim angen i'r gynulleidfa ddeall y stori fewnol, bydd bwriad y darn yn ei gyfleu ei hun mewn modd lled-haniaethol; yn nhermau coreograffi, mae'r symud yn canolbwyntio ar redeg, neidio a glanio.

Wrth fynd ati i greu'r symudiad hwn, fe farcion ni lawr yr ystafell ymarfer â sialc er mwyn sicrhau bod y creigiau'n aros yn yr un fan. Sicrhawyd hefyd bod yr awyr yn drwchus, fel bod yna fwy o wrthwynebiad i gyrff y dawnswyr wrth iddyn nhw lanio ar ôl y naid. Roedd y ddau fachgen yn neidio ar yr un pryd - y naill yn cyrraedd un o'r creigiau wrth i'r llall ei adael.

Er mwyn ychwanegu amrywiaeth at y coreograffi, rhoddwyd caniatâd i un bachgen gyrraedd yr un graig â'r llall, fel bod yn rhaid i'r ddau gydbwyso gyda'i gilydd ar un graig fechan. Fe gynhwyswyd un graig fawr hefyd lle gallai'r ddau orwedd gyda'i gilydd ac ymlacio am ennyd.

Lluniau: Hugo Glendinning 2005/06

Lluniau: Hugo Glendinning 2005/06

Ochr yn ochr

Mae un o'r prif rannau yn y nofel yn dangos y bechgyn yn mynd ar daith nofio hir gyda'i gilydd. Maent wedi treulio blwyddyn yn ymarfer ac yn paratoi ar gyfer yr her. Mae eu taith yn eu harwain allan o Fae Dulyn i ynys fechan lle maent yn codi eu baner eu hunain fel concwerwyr yr ynys. Maent yn cyrraedd wedi blino'n lân ac yn llawn emosiwn. Maent yn caru am y tro cyntaf. Mae'r coreograffi ar gyfer yr adran hon yn cyfleu'r olygfa rhai eiliadau'n ddiweddarach, wrth iddyn nhw orwedd ar graig yn yr haul i sychu a phendwmpian.

I ddechrau, mae'r coreograffi mor ddisymud â chorff cysglyd ond fe benderfynom ni ei wneud yn fwy haniaethol – a gwneud i'r bechgyn symud mewn undod perffaith â'i gilydd. Mae'r symud yn addfwyn, yn fyfyrgar ac ystumiol. Ar ôl ychydig, mae'r bechgyn yn cychwyn ar gyfres o symudiadau unigol, sy'n caniatáu i ni wahaniaethu rhyngddynt. Fodd bynnag, mae'r holl ystumiau a'r symudiadau yn dra chynnil.

Symudiadau bychain sydd yn yr adran hon - gorwedd ochr yn ochr, rholio i orwedd ar eu hochrau nei eistedd i fyny.

'They had this together now. They had their island. Whenever a thought crossed or a look met, if a hair but brushed a finger, this was where they would be. No one could take it from them... '

Naratif a ddefnyddiwyd i ddiffinio coreograffi Ochr yn Ochr

Lluniau: Hugo Glendinning 2005/06

Lluniau: Hugo Glendinning 2005/06

Lluniau: Hugo Glendinning 2005/06

Lluniau: Hugo Glendinning 2005/06

DYFEISIAU COREOGRAFFIG

Pal o' My Heart

Mae hon yn adran fywiog sy'n cyfleu cyfeillgarwch y ddau fachgen. Er iddyn nhw fod yn ffrindiau yn ystod eu plentyndod, roedd yn rhaid i un ohonynt symud i ffwrdd. Mae'r berthynas yn dechrau eto rai blynyddoedd yn ddiweddarach â'r bechgyn ar ganol blynyddoedd eu harddegau. Mae'r adran hon yn cyfeirio at yr adeg pan ddaw'r bechgyn i gwmni'i gilydd eto er mwyn ailafael yn eu cyfeillgarwch.

Mae'r dyfeisiau coreograffig a ddefnyddir yn cynnwys croesi ehangder y gofod llwyfan fraich ym mraich. Crëwyd dilyniannau corfforol cyflym gan ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:

- Breichiau am ysgwyddau'i gilydd
- Braich am ganol y llall
- Gwthio breichiau'i gilydd i ffwrdd
- Gosod braich dros neu dan fraich y llall
- Symud pen dan fraich y llall
- Gwau i mewn ac allan o lwybrau'i gilydd

Cafodd y symudiadau hyn eu hailadrodd gydag amrywiadau. Ychwanegwyd elfennau o godi corff y llall ac ymladd chwareus. Roedd y dawnswyr yn defnyddio'r holl ofod llwyfan, yn codi ac yn symud yn y gofod gan newid cyfeiriad yn rheolaidd.

Dyfyniadau o'r nofel *At Swim Two Boys* gan Jamie O'Neill

'Grey morning dulled the bay. Banks of clouds, Howth just one more bank, rolled to sea, where other Howths grumbled to greet them. Swollen spumeless tide. Heads that bobbed like floating gulls and gulls like floating bobbed like heads. Two heads. At swim, two boys.'

Lluniau: Hugo Glendinning 2005/06

"Are we ready to go to the forty foot?"
Doyler looked round as though the rocks would decide him.
"Said you'd never been. Thought to show you was all."
"It'll be dark soon."
A flash of his grin. "I'll see you won't fall in," he said and the arm went round Jim's shoulder. Gently this time, though still the touch shot through Jim's cloths, through his skin even. It was this way whenever their bodies met, if limping they brushed against him or laughing he squeezed his arm. The touch charged through like a sputtering tram-wire until it wasn't Doyler he felt but what Doyler touched, which was himself. This is my shoulder, this my leg. And he did not think he had felt himself before, other than in pain or in sin.'

Naratif a ddefnyddiwyd i ddiffinio coreograffi 'Pocedi'

TASGAU YMCHWIL

Tasgau:

Trafodwch a rhestrwch brif themâu y gwaith yn eich barn chi

Lluniau: Hugo Glendinning 2005/06

TASGAU YMCHWIL

Trafodwch mewn grŵp eich barn chi ar ryfel yng nghyd-destun bywydau pobl Iwerddon ar droad yr 20fed ganrif

Mae *At Swim Two Boys* wedi ei osod yn Iwerddon yn ystod cyfnod Gwrthryfel y Pasg yn erbyn rheolaeth Prydain. Cafwyd nifer o anghydfodau cymdeithasol yn Iwerddon yn ystod yr 20fed ganrif. Trafodwch mewn grŵp sut mae'r sefyllfa gymdeithasol yn Iwerddon wedi datblygu yn ystod yr 20fed ganrif.

Lluniau: Hugo Glendinning 2005/06

Lluniau: Hugo Glendinning 2005/06


Lluniau: Hugo Glendinning 2005/06

TASGAU YMCHWIL

Mae gwrywgydiaeth yn thema allweddol yn y perfformiad. Ym 1916, roedd hi'n farn gyffredinol bod gwrywgydiaeth yn weithred annaturiol a oedd yn groes i Athrawiaeth Babyddol. Roedd hefyd yn drosedd y gellid ei chosbi â chyfnod yn y carchar.

A yw'r agweddau hyn at wrywgydiaeth yn berthnasol i gymdeithas gyfoes?

Sut mae safbwyntiau ynglŷn â gwrywgydiaeth wedi newid yn ystod yr 20fed a'r 21ain ganrif?

Lluniau: Hugo Glendinning 2005/06

MANYLION CYSWLLT

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â ni:

Earthfall
Chapter
Heol y Farchnad
Caerdydd
CF5 1QE

029 20 22 13 14
www.earthfall.org.uk

I gael mwy o wybodaeth am ***At Swim Two Boys*** gallwch ymweld â'r safle swyddogol:
www.atswimtwoboys.com

Gallwch ein dilyn ni hefyd ar:
Facebook a Twitter

Dywedwch wrthym am eich profiadau chi o gymryd rhan:
http://on.fb.me/fboutreach

Lluniau o'r cynhyrchiad gwreiddiol yn 2004

Defnyddir darnau o'r nofel gyda chaniatâd yr awdur